# Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch

## Adran A: Y gofynion i Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2023

Wedi'i ddiwygio: Gorffennaf 2025

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **2**
Nodweddion craidd y Diploma .......... 3
Cynllun graddio cyffredin .......... 3
Nodweddion allweddol y cynllun graddio cyffredin .......... 3
**Y graddau a'r safonau graddio** .......... **4**
Y graddau .......... 4
Y safonau graddio .......... 4
Safonau graddio ac unedau .......... 4
Defnyddio'r cynllun graddio ar lefel y cwrs (gwelwch y manylion llawn yn Adran C) .......... 5
Sicrhau cydraddoldeb a safoni (mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran D) .......... 6
Dyfarnu graddau (mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran E) .......... 6
**Atodiad A: Crynodeb o'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU** .......... **8**
**Rheoli fersiynau** .......... **9**

# Cyflwyniad

1 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ('QAA') yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch ('Mynediad i AU'), ac mae ei nodau elusennol yn cynnwys y cyfrifoldeb am roi cyngor i'r llywodraethau ynglŷn â'r gydnabyddiaeth a roddir i gyrsiau Mynediad i AU. Mae QAA hefyd yn cofrestru ac yn cynnal nodau masnach y cymhwyster. I gynnal a chadw'r dulliau a ddefnyddir gan y llywodraethau i gydnabod y Diploma at ddiben cyllido, mae QAA yn gweithredu ei Chynllun Cydnabod ar gyfer Mynediad i AU (y 'Cynllun Cydnabod'). Mae'r term 'Cynllun Cydnabod' yn cyfeirio at drefniadau QAA ar gyfer cyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â'r Diploma. Mae hefyd yn cynnwys fframwaith o ofynion sydd wedi eu nodi mewn dogfennau penodol a ddefnyddir gan QAA i ddyfarnu trwydded (y 'Drwydded') i Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') sy'n caniatáu iddynt ddatblygu, dilysu a chymeradwyo cyrsiau Mynediad i AU a dyfarnu Diplomâu.

2 Bydd QAA yn dyfarnu Trwydded i Asiantaeth DMiAU, ac yn caniatáu iddi ei chadw at y dibenion hyn, ar yr amod ei bod yn cytuno i lynu at ofynion QAA mewn perthynas â'r Diploma, fel y maen nhw wedi eu nodi yn y dogfennau a ganlyn:

2.1 **Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch** (y 'Telerau') sy'n nodi'r telerau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU gytuno iddynt er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU a chadw ei Thrwydded.

2.2 **Yr Amodau Mynediad i AU** (yr 'Amodau'), sef y goblygiadau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU eu cyflawni (neu ddangos ei bod yn gallu eu cyflawni) er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU a pharhau i gadw ei Thrwydded.

3 Mae'r Telerau Safonol a'r Amodau'n esbonio'n glir beth yw'r gofynion a'r disgwyliadau, yn ogystal â threfniadau eraill sydd wedi eu nodi mewn dogfennau eraill o fewn y Cynllun Cydnabod. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau trwyddedu a monitro, y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU, Manyleb y Diploma Mynediad i AU a'r Disgrifyddion Pwnc. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ychwanegol y gallai QAA eu cyflwyno sy'n nodi gwybodaeth bellach am y dull y gallai QAA ei ddefnyddio i asesu cydymffurfiad ag amod penodol, neu i helpu Asiantaethau DMiAU i ddehongli'r gofynion.

4 Y ddogfen hon, y *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch* (y 'Cynllun Graddio'), yw un o ddogfennau rheoleiddiol y Cynllun Cydnabod sy'n nodi'r gofynion wrth ddarparu'r cymhwyster Diploma Mynediad i AU. Mae pum adran i'r Cynllun Graddio sy'n nodi'r gofynion wrth raddio'r Diploma Mynediad i AU (y 'Diploma') er mwyn sicrhau bod ansawdd a safonau'r graddio'n gyson a chyfatebol ar draws yr holl ddarpariaeth Mynediad i AU. Fel y mae wedi ei nodi yn Amod D1.1 yr Amodau Mynediad i AU (yr 'Amodau'), mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys, strwythur a darpariaeth pob cwrs Diploma Mynediad i AU yn bodloni'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y ddogfen hon.

5 Lluniwyd y Cynllun Graddio i ymdopi â hyblygrwydd y cymhwyster, fel bod modd ei ddefnyddio ar gyfer pob Diploma Mynediad i AU, beth bynnag fo ei faes astudio neu ei strwythur. Mae'n rhoi manylion y gofynion, y pwyntiau cyfeirio a'r rheoliadau asesu sy'n gyffredin i'r Diplomâu ac sy'n diffinio sut y ffurfir y beirniadaethau graddio, yn ogystal â'r broses o ddyfarnu graddau.

6 Mae arferion graddio da'n cynnwys 'asesu ar gyfer dysgu' yn ogystal ag 'asesu'r dysgu' a, phan fyddent wedi eu gweithredu'n gywir, mae'r Cynllun Graddio'n chwarae rôl mewn gwella profiad dysgu'r myfyrwyr drwy roi adborth i'r myfyrwyr am eu datblygiad yn ystod y cwrs, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am eu perfformiad ar ddiwedd y cwrs.

## Nodweddion craidd y Diploma

7 Rhaid i bob Diploma Mynediad i AU gael:

7.1 teitl sy'n dangos y maes astudio cyffredinol neu'r llwybr cynnydd arfaethedig, a

7.2 chyfres gymeradwy o unedau asesu mewn gwahanol feysydd sy'n briodol i bwnc y Diploma.

8 Pan gyflawnir uned yn llwyddiannus, dyfernir nifer benodol o gredydau, a phan gwblheir pob un o'r unedau gofynnol yn llwyddiannus (rhaid bod cyfanswm o 60 credyd) mae hyn yn arwain at ddyfarnu'r Diploma.

9 Mae rhagor o wybodaeth am fanylebau technegol y Diploma a'r gofynion sylfaenol o ran cyflawniad y myfyrwyr i'w gweld ym *Manyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch*.

## Cynllun graddio cyffredin

10 Lluniwyd y cynllun graddio cyffredin sydd wedi ei ddisgrifio yn y ddogfen hon i sicrhau bod y broses raddio, a'r graddau a ddyfernir i'r myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau Mynediad i AU, yn:

10.1 **deg a chyfartal**: trwy weithredu'r prosesau graddio mewn ffordd gyson a chywir, sicrheir bod y myfyrwyr i gyd yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn ddiduedd

10.2 **agored ac eglur**: mae'n glir beth yw'r graddau a roddwyd, a pham y rhoddwyd graddau penodol, ac mae gwybodaeth eglur a hygyrch ar gael yn amlwg i'r holl bartïon sydd â diddordeb am y cynllun graddio ac arwyddocâd y graddau

10.3 **dilys a dibynadwy**: penderfyniadau graddio sy'n adlewyrchu'n fanwl gywir beth yw safon perfformiad y gwaith myfyriwr a aseswyd, ar sail dulliau cyffredin o fesur perfformiad a ddefnyddir mewn ffordd sy'n briodol i'r pwnc, a safonir a sicrheir dyfarniad y graddau drwy drefnau sicrhau ansawdd sicr a chadarn

10.4 **cyson a chyfatebol**: mae'r graddau a ddyfernir yn dangos bod y safonau perfformiad yn gymaradwy ar draws y gwahanol gyrsiau, y gwahanol ddarparwyr, yr Asiantaethau DMiAU a thros amser.

## Nodweddion allweddol y cynllun graddio cyffredin

11 Dyfernir gradd ar gyfer pob uned raddedig ar lefel 3 a gwblhawyd yn llwyddiannus gan y myfyriwr yn rhan o Ddiploma Mynediad i AU. Mae pob Diploma'n cynnwys 45 credyd o unedau graddedig ar lefel 3, a 15 credyd o unedau anraddedig ar lefel 2 neu lefel 3.

12 Ni roddir gradd gyffredinol neu gyfunol ar gyfer Diplomâu Mynediad i AU.

13 Mae'r nifer o raddau a ddyfernir i'r myfyriwr yn dibynnu ar y nifer o unedau graddedig ar lefel 3 sy'n ofynnol ar gyfer y Diploma Mynediad i AU penodol. Gall y nifer hwn amrywio oherwydd, er bod pob Diploma'n cynnwys 45 credyd o unedau graddedig ar lefel 3, gall yr unedau hyn fod â gwerth o 3, 6 neu 9 credyd. Er enghraifft, mae gan rai o'r Diplomâu nifer fechan o unedau sydd werth 9 credyd, tra bo gan eraill nifer fwy o unedau sydd werth 3 chredyd. Felly, mae nifer y graddau ar wahân a ddyfernir i'r myfyrwyr yn ganlyniad i strwythur y Diploma penodol ac nid ydynt yn adlewyrchiad o safon perfformiad y myfyriwr.

14 Mae'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer pob uned i'w gweld ar y trawsgrifiad o gyflawniad a gyhoeddir gyda Diplomâu Mynediad i AU. Bydd y trawsgrifiad hefyd yn dangos faint o gredydau a ddyfarnwyd ar gyfer pob uned raddedig neu anraddedig a gyflawnwyd yn llwyddiannus.

15 Mae canllawiau ar gael sy'n amlinellu crynodeb o'r broses raddio, o'r cam asesu i'r cam dyfarnu. Mae ffeithlun yn Atodiad A sy'n dangos y Cynllun Graddio.

**Mae cyfeiriadau pellach at unedau yn nogfennau'r Cynllun Graddio'n golygu 'unedau graddedig ar lefel 3', heblaw ei fod yn nodi'n wahanol.**

# Y graddau a'r safonau graddio

## Y graddau

16 Dylid dyfarnu gradd 'wedi pasio', 'teilyngdod' neu 'ragoriaeth' ar gyfer pob uned.

17 Y safon perfformiad sy'n ofynnol ar gyfer derbyn gradd 'pasio' yw'r safon isaf sy'n ofynnol i fodloni'r meini prawf asesu penodol ar gyfer deilliannau dysgu'r uned. Ni ddiffinnir gradd 'pasio' ar wahân. Mae graddau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth' yn dangos perfformiad o safon uwch ar lefel 3.

18 Ni cheir dyfarnu unrhyw gredyd ar gyfer uned i fyfyrwyr os nad ydynt wedi cyflawni'r deilliannau dysgu penodedig ar gyfer yr uned honno. Felly nifer yw'r uned yn gymwys ar gyfer ei graddio. Nid oes Safonau Graddio ar wahân ar gyfer 'wedi methu'.

19 Nid oes system rifo sy'n gyfatebol i raddau'r unedau. Nid ydynt yn deillio o, na'n cael eu trosi i, farciau rhifol. Ni cheir defnyddio marciau rhifol i asesu unedau sy'n cael eu cymeradwyo i'w defnyddio yn rhan o'r Diplomâu Mynediad i AU.

## Y safonau graddio

20 Mae cyfres gyffredin o safonau graddio eang generig sy'n cael eu defnyddio fel sail i bob beirniadaeth raddio ar bob cwrs. Mae'r tair Safon Raddio yn ymwneud â gwahanol agweddau o berfformiad sy'n berthnasol i asesu pa mor barod yw'r myfyrwyr ar gyfer astudio ar lefel uwch, fel a ganlyn:

20.1 Gwybodaeth a dealltwriaeth

20.2 Sgiliau pwnc-benodol

20.3 Sgiliau trosglwyddadwy

21 Mae pob un o'r tair Safon Raddio'n cynnwys cyfres o elfennau cyfansoddol manylach sy'n disgrifio mathau o berfformiad sy'n gysylltiedig â'r safon (gwelwch Adran B). Ar gyfer pob elfen, mae datganiadau cyfochrog ar lefelau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth' sy'n disgrifio safonau cyflawniad sy'n mynd yn gynyddol heriol. (Nid yw'r radd 'rhagoriaeth' yn cyflwyno galluoedd a sgiliau o safon uwch neu rai sy'n newydd o'i chymharu â'r radd 'teilyngdod'.) Os bydd y tiwtoriaid yn defnyddio'r safonau ar gyfer graddio uned benodol, byddent yn dewis is-elfennau mwyaf priodol y safonau. Mewn perthynas â Safon Raddio 3 (Sgiliau trosglwyddadwy), bydd y tiwtoriaid hefyd yn dewis **o leiaf dwy o'r tair elfen**, cyn iddynt ddewis yr is-elfennau perthnasol. Mae hyn yn caniatáu i'r fframwaith generig gael ei deilwra i natur benodol y gwahanol feysydd astudio.

## Safonau graddio ac unedau

22 Defnyddir pob un o'r tair Safon Raddio ar gyfer pob uned raddedig ac ar draws pob aseiniad o fewn uned raddedig.

23 Mewn unedau lle gosodir mwy nag un aseiniad, ni cheir dyfarnu gradd ar gyfer pob un o'r aseiniadau; mae'r graddio'n digwydd ar lefel yr uned yn unig.

24 Mewn unedau lle gosodir mwy nag un aseiniad, ni cheir defnyddio'r aseiniadau unigol i raddio Safonau Graddio unigol (er enghraifft, ni cheir defnyddio un o'r aseiniadau i raddio 'Gwybodaeth a dealltwriaeth' yn unig, a defnyddio aseiniad arall i raddio 'Sgiliau pwnc-benodol' a 'Sgiliau trosglwyddadwy').

25 Fel arfer, dewisir yr is-elfennau ar lefel yr uned wrth lunio'r cynllun ar gyfer asesu'r uned a dylent fod yn briodol ar gyfer yr ystod gyfan o aseiniadau unigol. Felly, ni cheir aseinio'r is-elfennau wrth ddilysu'r uned.

26 Dim ond pan fydd pob un o'r aseiniadau ar gyfer yr uned unigol wedi eu hasesu ac y mae'r tiwtor wedi penderfynu bod y myfyriwr wedi cyflawni'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu i gyd ymhob aseiniad yn yr uned (ac felly wedi pasio'r uned) y bydd yr uned yn cael ei graddio. Ni cheir dyfarnu unrhyw radd am aseiniad unigol.

27 Rhoddir dangosydd gradd 'wedi pasio', 'teilyngdod' neu 'ragoriaeth' ar gyfer pob un o'r safonau graddio. Bydd y tiwtor yn adolygu pob un o'r aseiniadau sy'n gysylltiedig â'r uned unigol ac yn penderfynu a yw'r myfyriwr wedi dangos y safon sy'n ofynnol ar gyfer y radd 'teilyngdod' neu 'ragoriaeth', neu ai gradd 'pasio' yw'r canlyniad o hyd.

28 Mae'n rhaid i bob tiwtor gadw cofnod ysgrifenedig o'u cyfiawnhad am y dangosydd gradd sydd wedi ei aseinio ar gyfer pob Safon Raddio.

29 Bydd y tiwtor yn adolygu'r tri dangosydd gradd sydd wedi eu haseinio ar gyfer yr uned ac yn pennu'r radd gyffredinol ar gyfer yr uned, drwy ddefnyddio dull safonol sydd wedi ei ddisgrifio'n fanwl yn Nhabl 1 yn Atodiad C2 Adran C y Cynllun Graddio. Cyflwynir y radd gyffredinol fel argymhelliad i'r Bwrdd Dyfarnu, a bydd y Bwrdd yn ei hystyried a'i chadarnhau.

## Defnyddio'r cynllun graddio ar lefel y cwrs (gwelwch y manylion llawn yn Adran C)

30 Ar gyfer Safon Raddio 3 (Sgiliau trosglwyddadwy), mae dewis o dair elfen ynghyd â gofyniad bod o leiaf dwy elfen yn cael eu dewis ar gyfer pob uned raddedig (beth bynnag fo maint yr uned) ac y defnyddir pob un o'r tair elfen o leiaf unwaith wrth raddio unedau ym mhob rhan o'r Diploma. Bydd angen i bob Asiantaeth DMiAU fod â phrosesau ar waith, ar lefel y myfyriwr, i sicrhau bod pob un o'r tair elfen wedi eu defnyddio.

31 Gwneir defnydd mwy penodol o'r Safonau Graddio pan fydd yr uned (a allai gael ei chymeradwyo i gael ei defnyddio ar fwy nag un Diploma) yn cael ei darparu yn rhan o gwrs penodol, drwy ddewis is-elfennau priodol o blith y Safonau Graddio. Mae'r dewis o is-elfennau'n caniatáu i diwtoriaid fyfyrio ar natur y maes astudio penodol a asesir a'r agwedd ohono sy'n cael ei hasesu, a gofynion y math o weithgaredd y byddai angen i fyfyriwr ei gwneud er mwyn dangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu.

32 Dangosir yn glir i'r myfyrwyr pa elfennau ac is-elfennau sydd wedi eu dewis o'r safonau graddio ar gyfer yr unedau, ac maent wedi eu cynnwys ym mriffiau'r aseiniadau y mae tiwtoriaid cwrs yn eu darparu i fyfyrwyr ar gyfer pob aseiniad.

33 Caiff unedau eu hasesu mewn gwahanol ffyrdd: asesir rhai drwy un aseiniad unigol; asesir eraill gyda mwy nag un aseiniad. Mae modd defnyddio aseiniadau integredig hefyd i asesu

deilliannau dysgu dwy uned wahanol neu fwy drwy gyfrwng un darn o waith. Beth bynnag fo natur neu nifer yr aseiniadau ar wahân neu'r tasgau unigol a ddefnyddir i asesu'r uned, y canlyniad terfynol fydd un radd gyfunol ar gyfer yr uned sy'n dangos safon gyffredinol y perfformiad ar gyfer yr uned.

34 Ochr yn ochr â'r graddau ar gyfer yr uned, rhoddir adborth i'r myfyrwyr sy'n eu galluogi i ddeall pam y rhoddwyd gradd benodol. Bydd yr adborth hwn yn canolbwyntio ar y perfformiad a nodir gan is-elfennau'r Safonau Graddio a ddewisir (mewn perthynas â'r disgwyliadau a'r gofynion ar gyfer yr aseiniad unigol).

35 Mae'r arferion ar gyfer rheoli'r broses o gyflwyno gwaith myfyrwyr, gan gynnwys cyflwyno fersiynau drafft, cyflwyno gwaith yn hwyr a chyfleoedd i ailgyflwyno neu ailasesu, wedi eu llywio gan reoliadau asesu'r Cynllun Graddio (gwelwch Adrannau C ac E).

## Sicrhau cydraddoldeb a safoni (mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran D)

36 Mae cynlluniau asesu'r unedau a briffiau'r aseiniadau'n cynnwys gofynion graddio. Caiff y dogfennau hyn eu gwirio neu eu safoni'n fewnol.

37 Bydd y penderfyniadau graddio'n mynd drwy brosesau gwirio mewnol a safoni allanol.

38 Mae Amodau Mynediad i AU E1 i E4 QAA yn gofyn i bob Asiantaeth DMiAU weithredu systemau safoni a phrosesau sicrhau cydraddoldeb sy'n sicrhau dull cyffredin o asesu a graddio ynghyd â safonau cyson a chyfatebol wrth ddyfarnu graddau ar gyrsiau'r Diploma Mynediad i AU. Bydd y systemau hyn yn sicrhau:

38.1 bod yr arferion asesu'n cyfateb â'r gofynion graddio

38.2 bod y safonau gofynnol yn cyfateb â gofynion y Safonau Graddio

38.3 y defnyddir safonau cyson a chyfatebol ar draws yr Asiantaeth DMiAU gyfan

38.4 y defnyddir dulliau cyffredin o ddethol, penodi a hyfforddi safonwyr.

## Dyfarnu graddau (mae'r manylion llawn i'w gweld yn Adran E)

39 Mae'r darparwyr yn argymell y graddau ar gyfer yr uned y dylai'r Asiantaeth DMiAU eu dyfarnu. Cadarnheir y graddau hyn yng nghyfarfod y Bwrdd Dyfarnu Terfynol a gynhelir ar gyfer pob cwrs. Mae Amod F1.1 yn disgrifio'n fanwl y gweithdrefnau y mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU eu defnyddio ar gyfer dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU, gan gynnwys ar gyfer cynnal Byrddau Dyfarnu Terfynol.

40 Mae'r Bwrdd Dyfarnu Terfynol yn penderfynu ar achosion arbennig ac unrhyw gyfleoedd ailasesu. Cymeradwyir y penderfyniadau asesu a geir o ganlyniad i'r cyfleoedd hyn yn ail gyfarfod y Bwrdd Dyfarnu, neu drwy ddull arall y cytunir arno gyda'r Asiantaeth DMiAU.

41 Mae'r Asiantaethau DMiAU yn dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU i'r myfyrwyr hynny sy'n cyflawni'r 60 credyd sy'n ofynnol, o'r unedau a ddisgrifir yn y rheolau cyfuno ar gyfer y Diploma (Amod F1.2). Maen nhw hefyd yn cyhoeddi trawsgrifiadau o gyflawniad, sy'n rhoi manylion y credydau a'r graddau a gyflawnwyd (Amod F1.3).

42 Lle mae'r Diploma'n cael ei gyflawni drwy drosglwyddo credydau neu eu cronni drwy gyflawniad bylchog, mae'r graddau a gyflawnir ar yr unedau perthnasol yn cael eu dwyn ymlaen.

43 Ni ddyfernir graddau ar gyfer unedau nad ydynt yn cyfrannu at y Diploma, neu sy'n ychwanegol at ofynion penodol y Diploma.

## Atodiad A: Crynodeb o'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU

# Y Cynllun Graddio ar gyfer Diplomâu Mynediad i AU

Access to Higher Education

### Yr egwyddorion craidd

Cynllun graddio cyffredin i sicrhau bod y broses raddio a'r graddau a ddyfernir i fyfyrwyr Mynediad i AU yn:

- deg a chyfartal
- agored ac eglur
- dilys a dibynadwy
- cyson a chyfatebol

### Y nodweddion allweddol

- Ni roddir gradd gyffredinol neu gyfunol
- Dyfernir gradd ar gyfer pob uned raddedig ar lefel 3
- Nodir y graddau ar drawsgrifiad o gyflawniad
- Mae nifer y graddau ar wahân a ddyfernir yn dibynnu ar werth credyd pob uned a gynigir
- Mae pob Diploma'n cynnwys 45 credyd graddedig ar lefel 3 a 15 credyd anraddedig ar naill ai lefel 2 neu ar lefel 3

### Y safonau graddio

- Gwybodaeth a dealltwriaeth
- Sgiliau pwnc-benodol
- Sgiliau trosglwyddadwy

Cyfres gyffredin o Safonau Graddio a ddefnyddir fel sail i bob beirniadaeth raddio ar bob cwrs Mynediad i AU.

### Y graddau

Pasio | Teilyngdod | Rhagoriaeth

### Y safonau graddio a'r unedau

- Dim ond ar ôl i bob un o ddeilliannau dysgu'r uned gael eu cyflawni yr ystyrir y tair Safon Raddio
- Mae'r Safonau Graddio'n diffinio'r agweddau o berfformiad y caiff penderfyniadau graddio ar gyfer yr uned eu seilio arnynt
- Mae unedau'n cael eu graddio yn erbyn cyfuniad o elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio
- Mae'r briffiau aseiniadau i'r myfyrwyr yn cynnwys manylion elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio a ddefnyddir ar gyfer graddio
- Pennir y radd ar gyfer yr uned ar sail canolrif y tair Safon Raddio

### Sicrhau cydraddoldeb a safoni

Bydd cynlluniau asesu'r unedau, briffiau'r aseiniadau a'r penderfyniadau graddio'n mynd drwy brosesau gwirio mewnol a safoni allanol

### Dyfarnu graddau

- Mae'r darparwyr yn argymell y graddau ar gyfer yr uned y dylai'r Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch (Asiantaeth DMiAU) eu dyfarnu
- Cadarnheir y graddau yng nghyfarfod y Bwrdd Dyfarnu Terfynol a gynhelir gan yr Asiantaeth DMiAU ar gyfer pob cwrs

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy anfon e-bost at: ahe@qaa.ac.uk

## Rheoli fersiynau

**Teitl y ddogfen**

Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch
- Dogfen Reoleiddiol: Y gofynion i Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU

**Disgrifiad o'r ddogfen**

Y ddogfen hon yw Adran A y Cynllun Graddio ar gyfer Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch sy'n rhoi trosolwg o'r Cynllun Graddio. Mae hon yn ddogfen reoleiddiol sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).

| | |
|---|---|
| **Perchennog y ddogfen** | Rheolwr y Diploma Mynediad i AU |
| **Cymeradwywyd gan Fwrdd QAA** | Dyddiad: Mawrth 2025 |
| **Lleoliad cyhoeddi** | https://www.qaa.ac.uk/access-to-he/access-to-he-resources/access-to-he-grading-scheme |

**Cysylltiadau â dogfennau rheoleiddiol eraill**

y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch

yr Amodau Mynediad i AU

y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU - Adrannau B i E

Manyleb y Diploma Mynediad i AU

I weld manylion, ewch i: www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad adolygu nesaf** | Dyddiad: Gorffennaf 2028 |

| Fersiwn | Y dyddiad cyhoeddi | Y wybodaeth wedi ei diweddaru |
|---|---|---|
| 1.0 | Gorffennaf 2024 | Yr argraffiad cyhoeddedig cyntaf |
| 2.0 | Gorffennaf 2025 | Diweddarwyd y cyfeiriadau at y Cytundeb Trwyddedu i'r Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU<br><br>Adolygwyd y gair Saesneg am 'atodiad' i sicrhau aliniad ag arddull fewnol benodol gyfredol QAA<br><br>Paragraff 3 - pwysleisiwyd natur reoleiddiol dogfennau'r Cynllun Graddio<br><br>Rhoddwyd y teitl 'NODWEDDION craidd y Diploma' yn lle 'Egwyddorion craidd y Diploma'<br><br>Paragraff 12 - cywirwyd achosion o amryfusedd argraffyddol bychan yn y testun Saesneg<br><br>Paragraff 29 - ychwanegwyd 'Adran C y Cynllun Graddio' yn y frawddeg olaf ond un er mwyn dangos yn eglur ymhle i gael hyd i'r atodiad y dyfynnwyd ohono |

| | | |
|---|---|---|
| | | Paragraff 29 - ychwanegwyd y geiriad 'Cyflwynir … fel' yn y frawddeg olaf i alinio'n well â gofynion yr Amodau Mynediad i AU<br><br>Paragraffau 27, 28, 29 a 34 - defnyddiwyd y geiriau 'aseinio' neu 'roi' yn lle'r 'dyfarnu' gwreiddiol<br><br>Paragraff 37 - ychwanegwyd cyfeiriad at Amodau Mynediad i AU E1 i E4, ac, i alinio â gofynion yr Amodau, ychwanegwyd y geiriad "sy'n sicrhau dull cyffredin o asesu a graddio ynghyd â safonau cyson a chyfatebol wrth ddyfarnu graddau ar gyrsiau'r Diploma Mynediad i AU. Bydd y systemau hyn yn sicrhau:"<br><br>Paragraff 39 - ychwanegwyd y frawddeg "Mae Amod F1.1 yn disgrifio'n fanwl y gweithdrefnau y mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU eu defnyddio ar gyfer dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU, gan gynnwys ar gyfer cynnal Byrddau Dyfarnu Terfynol."<br><br>Paragraff 40 - ychwanegwyd cyfeiriad at Amodau F1.2 ac F1.3<br><br>Atodiad A - tynnwyd gwybodaeth (crynodeb o'r broses raddio) i'w chyhoeddi fel canllaw ar wahân<br><br>Ychwanegwyd "Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorffennaf 2025 i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch."<br><br>yn lle<br><br>"Mae'r adran hon o'r Cynllun Graddio'n cymryd lle'r adran gyfatebol yng Nghynllun Graddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Medi 2020). Mae'n berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen. Hefyd, diweddarwyd Manyleb y Diploma Mynediad i AU i fod yn berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen."<br><br>Diweddarwyd yr adran am reoli fersiynau |

Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorffennaf 2025 i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch.

Mewn perthynas â'r myfyrwyr hynny oedd wedi eu cofrestru cyn 1 Awst 2024, gwelwch *Fanyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch* (Ionawr 2020) a'r *Cynllun Graddio* (Medi 2020) sydd ar gael ar [www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au](http://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au).

Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)